



National
Guidance
oeapng.info

Coronafeirws

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar gyfer cynllunio a rheoli dysgu yn yr awyr agored, ymweliadau allanol a dysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ystod y pendemig Coronafeirws (COVID-19). Rhaid iddi gael ei darllen yng nghyd-destun canllawiau presennol y llywodraeth, sy'n debygol o newid wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Rhaid ichi hefyd ddilyn unrhyw ganllawiau a gyflwynwyd gan eich cyflogwr.

Canllawiau'r Llywodraeth

Mae'n hanfodol fod canllawiau presennol y llywodraeth yn cael eu dilyn. Dylid felly eu monitro am unrhyw newidiadau.

Mae cyngor a gwybodaeth diweddaraf y llywodraeth ar Coronafeirws ar gael ar: www.gov.uk/coronavirus (Lloegr) a <https://llyw.cymru/coronafeirws> (Cymru).

Canllawiau ar gyfer Lleoliadau Addysg a Gofal Plant

Canllawiau sydd ar waith yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau ar gyfer athrawon, arweinwyr ysgolion, gofalwyr, rhieni a myfyrwyr ar:

<https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws>

Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar gyfer ailagor ysgolion ym mis Medi 2020, ar: <https://llyw.cymru/cynlluniau-ar-gyfer-dychwelyd-ir-ysgol-fis-medi-coronafeirws> a chanllawiau gweithredu ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Mae'r rhain yn datgan y gall ymweliadau addysg domestig heb aros dros nos ailgychwyn, gyda rheolaeth drylwyr o risg. Fodd bynnag, ni chaniateir arosiadau dros nos nac arosiadau tramor gyda phlant o dan 18 ar hyn o bryd.

Mae canllawiau ar gyfer lleoliadau ôl-16 o fis Medi 2020 ar gael ar:

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-yn-addysg-ol-16-o-fis-medi-2020-ymlaen>

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyngor teithio penodol hefyd ar gyfer lleoliadau addysgol ar:

<https://llyw.cymru/coronafeirws-canllawiau-teithio-i-sefydliadau-addysg-myfyrwyr>

Canllawiau sydd ar waith yn Lloegr

Mae Adran Addysg Lloegr (DfE) wedi cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau ar gyfer athrawon, arweinwyr ysgolion, gofalwyr, rhieni a myfyrwyr ar:
www.gov.uk/coronavirus/education-and-childcare

Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer tymor hydref 2020 i ysgolion, ar:
www.gov.uk/government/publications/actions-for-schools-during-the-coronavirus-outbreak/guidance-for-full-opening-schools

ac i ddarparwyr Addysg Bellach gan gynnwys colegau chweched dosbarth, ar:
<https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-maintaining-further-education-provision/what-fe-colleges-and-providers-will-need-to-do-from-the-start-of-the-2020-autumn-term>

Mae'r rhain yn datgan y gall ymweliadau addysg domestig heb aros dros nos ailgychwyn, gyda rheolaeth drylwyr o risg. Fodd bynnag, ni chaniateir arosiadau dros nos nag arosiadau tramor gyda phlant o dan 18 ar hyn o bryd.

Canllawiau ar gyfer Lleoliadau y tu allan i'r Ysgol a Gwaith Ieuenctid

Canllawiau sydd ar waith yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid ar:
<https://llyw.cymru/canllawiau-gwasanaethau-gwaith-ieuenctid-coronafeirws>

Canllawiau sydd ar waith yn Lloegr

Mae Adran Addysg Lloegr wedi cyhoeddi canllawiau ar fesurau diogelu ar gyfer darparwyr gweithgareddau cymunedol, clybiau gwyliau neu ar ôl ysgol a lleoliadau eraill y tu allan i'r ysgol, ar:

www.gov.uk/government/publications/protective-measures-for-holiday-or-after-school-clubs-and-other-out-of-school-settings-for-children-during-the-coronavirus-covid-19-outbreak

Mae hyn yn cynnwys adran ar ymweliadau addysgol, sy'n datgan ar hyn o bryd y gall darparwyr gynnig ymweliadau addysgol domestig heb fod dros nos, ond na ddylid cynnig darpariaeth dros nos na phreswyl i blant.

Canllawiau eraill

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer rheoli gweithgareddau a lleoedd y sector ieuenctid yn ystod COVID-19, ar
<https://nya.org.uk/guidance/>. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar ddysgu yn yr awyr agored gan gynnwys gwerysyla a phrofiadau preswyl eraill, a theithio.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi nodyn ymgynghorol am ymweliadau sy'n cynnwys ymweliadau preswyl. Er nad yw hyn yn berthnasol yn swyddogol yng Nghymru na Lloegr, mae'n cynnwys gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol:
<https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-advisory-sub-group-on-education-and-childrens-issues---advisory-note-on-school-trips-which-include-an-overnight-stay/>

Dysgu yn yr Awyr Agored ac Ymweliadau Allanol yn ystod y Pandemig

Mae dysgu yn yr awyr agored yn cynnig llawer o fanteision o ran addysg ac iechyd. Yn ystod y pandemig, mae hefyd yn rhoi cyfleoedd am 'gadw pellter cymdeithasol' ac awyr iach, ac felly dylai sefydliadau ystyried sut y gallant drefnu bod plant a phobl ifanc yn cael treulio hynny ag sy'n bosibl o amser yn yr awyr agored.

Yn ogystal â defnyddio'n meysydd chwarae a'n gerddi eu hunain, mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd rheolaidd o leoedd awyr agored gerllaw'r ysgol ar gyfer gweithgareddau addysgol, a'r rhain weithiau wedi eu dynodi fel 'Ardaloedd Dysgu Lleol'. Dylai fod yn bosibl parhau i ddefnyddio'r mwyafrif o leoliadau sydd o fewn pellter cerdded, o fewn y cyfyngiadau presennol. Gallai fod yn bosibl hefyd trafod, gyda'r tîrffediannwr, neilltuo lle awyr agored cyfagos yn gyfan gwbl at ddefnydd y sefydliad dros dro.

Dylai sefydliadau ddefnyddio eu doethineb, ar sail canllawiau'r llywodraeth ynghylch mesurau gwarchod a gweithio diogel yn ystod y pandemig, i benderfynu beth sy'n addas yn eu hamgylchiadau penodol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae'n werth ystyried newidynnau 'SAGE' (Staff, Gweithgaredd, Grŵp, Amgylchedd) – gweler dogfen [1b "Foundations"](#).

Mae llawer o syniadau ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau ar gael ar-lein, er enghraifft:

- Mae'r dogfennau OEAP canlynol ar gael mewn Canllawiau Cenedlaethol:
[7.3b "Get Outside – Supporting Teachers to Take Learning Outside the Classroom"](#)
[7.3c "Learning Outside the Classroom – Activity Cards"](#)
[7.3d "Taking Learning Outside the Classroom – Adapting Activities"](#)
- Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
www.walescouncilforoutdoorlearning.org/activity-ideas
- Cyngor Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth
www.lotc.org.uk/resources/education-resources
- Dysgu trwy Dirweddau
www.ltl.org.uk/free-resources
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
www.nationaltrust.org.uk/features/50-things-to-do-before-youre-11--activity-list

Cynllunio a Rheoli Gweithgareddau yn ystod y Pandemig

Mae'r canllawiau canlynol ar gynllunio a rheoli gweithgareddau yn benodol ar gyfer gweithredu yn ystod y pandemig COVID-19. Dylech fod yn gyfarwydd hefyd â dogfennau Canllawiau Cenedlaethol eraill sy'n berthnasol i'ch rôl, gan fod egwyddorion arferol arferion da yn dal yn berthnasol.

Dylech adolygu eich gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y mesurau y byddwch angen eu cymryd i leihau'r risgiau o COVID-19.

Mae'n arbennig o bwysig dilyn canllawiau'r llywodraeth am 'gadw pellter cymdeithasol', meintiau grwpiau, cyfarpar diogelu personol a hylendid, boed hynny o dan do neu yn yr awyr agored, ar y safle neu oddi ar y safle.

Dylech ystyried osgoi gweithgareddau sydd â thebygolrwydd uchel o fân anafiadau, er mwyn lleihau'r angen am gymorth cyntaf, cyswllt agos â rhai sy'n cymryd rhan, neu ymweliadau ag ysbyty.

Os yw'r gweithgaredd a gynlluniwyd mewn llecyn sy'n agored i'r cyhoedd, dylech ystyried yn ofalus sut y byddwch yn sicrhau bod eich grŵp wedi ei ynysu oddi wrth y cyhoedd.

Dylid rhoi'r un faint o sylw i hylendid yn yr awyr agored â phan fyddwch o dan do. Er enghraifft:

- Golchi/deiheintio dwylo'n rheolaidd gan gynnwys wrth fynd allan, cyn ac ar ôl cyffwrdd gwrthrychau a rennir fel offer gweithgareddau, cyn bwyta, ar ôl defnyddio'r toiled, wrth fynd i mewn a dod allan o gerbyd fel bws mini, ac wrth ddychwelyd i mewn;
- Osgoi cyffwrdd gwrthrychau a rennir gan y cyhoedd – er enghraifft, gallai aelod o staff ddal giât yn agored er mwyn osgoi iddi gael ei chyffwrdd gan bawb;
- Osgoi gweithgareddau sy'n golygu unigolion yn cyffwrdd â'i gilydd (ee dal dwylo);
- Diheintio offer cyn iddo gael ei ddefnyddio.

Ystyriwch fynd â'r eitemau canlynol gyda chi, neu sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd: jel diheintio dwylo, cadachau diheintio, hancesi papur, bagiau gwastraff, menig a masgiau wyneb ac o bosibl ffedogau untro a chyfarpar diogelu'r llygaid – rhag ofn y bydd angen i staff weithredu cymorth cyntaf neu roi cymorth uniongyrchol neu ofal personol i rywun sy'n cymryd rhan.

Cofiwch fod jel diheintio dwylo fel arfer yn cynnwys cyfran uchel o alcohol, ac y gallai felly fod yn demtasiwn i rai pobl ifanc ei gamddefnyddio. Dylai gael ei ddefnyddio o dan oruchwyliaeth fanwl gan staff.

Yn ystod rhai gweithgareddau, gall fod yn bosibl dynodi neu nodi 'parthau' i gyfranogwyr unigol weithio ynddynt, er mwyn osgoi cyswllt rhyngddynt.

Mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni am eich cynlluniau a'r gofal rydych chi'n ei gymryd, o dan do ac yn yr awyr agored, gan ei bod yn naturiol y byddant yn bryderus.

Ymweliadau

Wrth gynllunio ymweliad, dylech ystyried canllawiau'r llywodraeth ar y pryd fel rhan o'ch proses o asesu risg, ac yna eu gwirio yn y dyddiau a'r wythnosau sy'n arwain at yr ymweliad, ac yn ystod ymweliad preswyl, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch cynlluniau.

Mae'n naturiol y gall rhieni a chyfranogwyr fod yn bryderus, felly dylech drafod eu pryderon gyda nhw a rhoi gwybodaeth gyson iddyn nhw am y sefyllfa a sut rydych yn bwriadu lliniaru unrhyw risgiau.

Oherwydd COVID-19, gall fod uwch risg nag arfer o arweinwyr yn methu â mynd ar ymweliad, ac felly gall fod angen ichi ystyried hyn wrth drefnu staff ar gyfer ymweliadau.

Os ydych chi'n cynllunio ymweliad sy'n cynnwys grŵp arall (efallai grŵp tramor), fel ymweliad cyfnewid, neu os ydych chi'n bwriadu croesawu grŵp arall atoch neu weithio gyda nhw (efallai grŵp tramor yn ymweld â Phrydain), dylech gadw mewn cysylltiad â nhw a sylweddoli y gallai fod angen iddynt newid neu ganslo'r trefniant.

Os ydych yn cynllunio ar gyfer ymweld â lleoliad fel amgueddfa neu oriel, neu fynd i ddigwyddiad cyhoeddus fel cyngerdd neu gêm, neu aros mewn llety fel hostel neu westy, neu os ydych chi'n defnyddio trefnydd teithiau neu ddarparwr gweithgareddau, trafodwch effeithiau posibl COVID-19 gyda nhw pan fyddwch yn archebu, a chadwch mewn cysylltiad â nhw wrth ddynesu at yr ymweliad.

Dylech wirio bod unrhyw ddarparwr y bwriadwch ei ddefnyddio wedi asesu'r risg o'r coronafeirws ac wedi gweithredu mesurau rheoli i atal heintio. Efallai y bydd rhai darparwyr na fyddant wedi cael budd y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau addysgol, ac felly na fyddant yn llawn sylweddîr mesurau a ddisgwylir. Dylech ystyried gwneud ymweliad cychwynol i wirio'r mesurau sydd ar waith a thrafod unrhyw faterion gyda'r darparwr. Gweler dogfen [4.4g "Selecting External Providers and Facilities"](#).

Teithio

Mewn adegau arferol, mae llawer o fanteision addysgol, amgylcheddol a chymdeithasol i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer ymweliad. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth ar hyn o bryd yn cynghori y dylid osgoi trafndiaeth gyhoeddus, os yn bosibl.

Lle nad yw cerdded neu feicio yn bosibl, dylid felly ddefnyddio trafndiaeth unswydd (fel bws mini neu fws). Dylai'r egwyddorion a'r polisiau ar gyfer defnyddio trafndiaeth unswydd, cyn belled ag sy'n bosibl, fod yn gyson â'r rheini a ddefnyddir yn yr ysgol neu'r lleoliad arall. Dylech ystyried:

- sut y caiff y chyfranogwyr eu gosod gyda'i gilydd mewn grwpiau ar y cerbyd – lle bo'n bosibl dylai hyn adlewyrchu'r grwpiau (ee 'swigod') a ddefnyddir yn yr ysgol neu'r lleoliad arall;
- defnyddio ddiheintydd dwylo wrth fynd i mewn ac allan o'r cerbyd;
- glanhau ychwanegol yn y cerbydau;
- sicrhau bod trefn wrth fynd i mewn ac allan o'r cerbyd;
- cadw pellter mewn cerbydau lle bo'n bosibl;
- defnyddio gorchuddion wyneb.

Rheoli'r Risgiau Ariannol

Os ydych chi'n gwneud unrhyw archebion neu ymrwymiadau ariannol, dylech geisio eglurder ar beth fydd y telerau a'r amodau os bydd yn rhaid i chi, neu'r darparwr, ganslo, neu'n cael eich rhwystro rhag mynd ymlaen oherwydd COVID-19 neu ei effeithiau. Dylech sicrhau hefyd fod rhieni'n glir ynghylch unrhyw ganlyniadau ariannol canslo. Gweler dogfen [3.2i "Contracts and Waivers"](#).

Os yw'r ymweliad yn golygu unrhyw ymrwymiadau ariannol sylweddol, fel teithio neu lety, dylech drafod effeithiau posibl COVID-19 gyda'ch darparwr yswiriant teithio. Er enghraifft, a fydd yr yswiriant yn talu cost canslo, cwtogi neu oedi yn sgil newidiadau yng nghanllawiau'r llywodraeth neu fesurau rheoli'r feirws (fel aelodau o'r grŵp wedi eu hynysu gartref neu mewn gwesty ac yn cael eu rhwystro rhag teithio)? Gweler dogfen [4.4c "Insurance"](#).

Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi cyhoeddi cyngor ar oblygiadau COVID-19 ar yswiriant teithio, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar deithio tramor, ar: www.abi.org.uk/products-and-issues/topics-and-issues/coronavirus-hub

Ymweliadau Tramor

Gweler hefyd dogfen [7r "Overseas Visits"](#).

Mae canllawiau presennol y llywodraeth ar gyfer lleoliadau addysgol yng Nghymru a Lloegr yn cynghori yn erbyn unrhyw ymweliadau tramor i blant o dan 18. Dylech fonitro cyngor y llywodraeth ar deithio tramor ar gyfer unrhyw wlad rydych chi'n cynllunio teithio iddi neu drwyddi: www.gov.uk/foreign-travel-advice

Cadwch gysylltiad cyson gyda'ch darparwr teithio i drafod y sefyllfa yn y wlad rydych chi'n bwriadu ymweld â hi ac ystyriwch y dewisiadau eraill pe na bai'n bosibl i'r ymweliad hwnnw fynd yn ei flaen mwyach.

Mae cyngor penodol i bobl sy'n teithio dramor yn ystod y pandemig, ac ar warchod eu hunain ar ôl dychwelyd, ar gael ar: www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus

Mae'r cyngor a roddir uchod am yswiriant yn neilltuol o bwysig ar gyfer ymweliadau tramor.

Mae Cymdeithas Asiantau Teithio Prydain (ABTA) wedi cyhoeddi canllawiau ar deithio tramor ar: www.abta.com/news/coronavirus-outbreak

